**Ffilm Cymru Wales**
**Pennaeth Sgiliau a Hyfforddiant**

Mynediad: Credwn mewn sector sy'n gweithio i bawb.

I ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft unigolion sy'n F/fyddar, trwm eu clyw, Anabl, niwroamrywiol, a phobl sy'n colli'u golwg, mae cymorth ar gael i gyflwyno cais.

Cysylltwch â ni i roi gwybod inni sut gallwn helpu. Er enghraifft, gallwn dalu am gostau dehonglydd BSL ar gyfer cyfarfod gyda ni cyn gwneud cais, neu gymorth ysgrifennu i ymgeiswyr dyslecsig. Cawn ein harwain gennych chi.

I'r sawl sydd â gofynion mynediad, gallwn hefyd dderbyn ffurflenni cais drwy'r post, neu atebion mewn fformatau eraill fel fideo byr neu ddec sleidiau. Dylai'r fformat gael ei gytuno gyda'n tîm cyn cyflwyno'r cais.

Cysylltwch â hayley@ffilmcymruwales.com i drafod eich gofynion ymlaen llaw cyn cyflwyno cais.

Dyma'r pecyn gwybodaeth ar gyfer swydd:
**Pennaeth Sgiliau a Hyfforddiant**

Mae'r wybodaeth ganlynol yn cael ei rhoi i'ch helpu gyda'ch cais.
Mae mwy o wybodaeth am Ffilm Cymru i'w gweld fan yma:
[www.ffilmcymruwales.co.uk](http://www.ffilmcymruwales.co.uk)

# Cynnwys

**Croeso**........................................................................................3
**Sut i Wneud Cais**.................................................................................4
**Hysbyseb Swydd: Pennaeth Sgiliau a Hyfforddiant**...........................5
**Ffilm Cymru Wales** .............................................................................7
**Y Swydd** ..............................................................................................9

# Croeso

Diolch am roi o'ch amser i ddysgu mwy am y swydd hon. Cwmni buddiannau cymunedol yw Ffilm Cymru, sy'n uchelgeisiol ynglŷn â'r diwydiant sgrin yr hoffem ei weld yng Nghymru. Elfen allweddol o'n gweledigaeth yw ein gweithgarwch sgiliau (sy'n cynnwys cwmnïau, gweithwyr proffesiynol presennol ym myd y sgrin, a newydd-ddyfodiaid) a'i gyswllt agos â'n gwaith i gefnogi cynhwysiant.

Byddwch yn ymuno â ni ar bwynt pwysig yn natblygiad ein cwmni. Tra bo'r sector fel cyfanwaith yn wynebu heriau diffyg sgiliau, mae'r ffyrdd newydd o weithio yr ydym wedi'u peilota wedi denu buddsoddiad a momentwm sylweddol. Mae Pennaeth Sgiliau a Hyfforddiant yn rôl allweddol er mwyn sicrhau cyflawni'n effeithiol, mireinio a chynnal ffocws strategol; goruchwylio rhaglenni sgiliau a hyfforddiant; ac eirioli dros ddyfodol gwell, gyda'r bwriad o'i wireddu.

Eleni fe wnaethom lansio ein menter Cymru Werdd i gefnogi sector sgrin gwyrddach; derbyniom gyllid sylweddol o Gronfa Adfywio Cymunedol y Deyrnas Unedig er mwyn cyflwyno ein dull Troed yn y Drws ar lefel uwch yng Nghasnewydd; gwnaethom weithio mewn partneriaeth â 23 sefydliad sgrin arall i lansio rhaglen aml-flwyddyn Media Cymru; gwnaeth ffilmiau Ffilm Cymru megis *Censor* gan Prano Bailey Bond a *Dream Horse* gan Euros Lyn barhau i roi ffilmiau Cymru ar y map; ac rydym yn gweithio â'r cynrychiolwyr undeb, Cult Cymru, ac eraill, i ddatblygu cyfleoedd sgiliau a hyfforddiant newydd i helpu i wella ymddygiad y sector, gan gynnwys Hwyluswyr Lles, er enghraifft. Gwnaethom gynnydd da ar fynd i'r afael â bylchau sgiliau a ffyrdd o weithio yn ein sector sy'n eithrio pobl – yn arbennig drwy ein rhaglen flaenllaw i newydd-ddyfodiaid, Troed yn y Drws – a dysgom lawer gan ein partneriaid hyfforddiant gan gynnwys cymdeithasau tai a grwpiau cymunedol. Ond mae llawer mwy y mae angen i ni wneud. Cewch y cyfle i gael effaith fawr ar sector sgrin sy'n tyfu'n gyflym, yn ogystal â rhannu'r hyn sy'n cael ei ddysgu ar lwyfan ehangach.

Rydym eisiau dylanwadu ar ymddygiad a chefnogi sector iach a chroesawgar, gan sicrhau bod pobl wedi'u paratoi â sgiliau at y dyfodol ac annog ffyrdd o weithio sy'n caniatáu i fwy o bobl ddod i mewn i'n sector a pharhau yn y sector.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych chi,
Kim Warner, Pennaeth Cynhyrchu Ffilm Cymru

## Sut i Wneud Cais

**Dyddiad cau derbyn ceisiadau yw 12 hanner dydd ar ddydd Llun 6ed Rhagfyr 2021.**

Caiff y cyfweliadau eu cynnal ar-lein ar 16 a 17 Rhagfyr 2021. Gallwch gyflwyno cais drwy anfon CV drwy e-bost ynghyd â llythyr eglurhaol yn dweud pam fod gennych ddiddordeb yn y swydd a sut rydych yn bodloni'r meini prawf sydd wedi'u rhestru fan yma, oni bai ein bod wedi cytuno ar ddull gwahanol er mwyn cefnogi eich mynediad.

e-bostiwch eich cais i sion@ffilmcymruwales.com

**Swyddi eraill:** Yn eich cais, nodwch os hoffech hefyd gael eich ystyried ar gyfer swyddi sgiliau a hyfforddiant eraill a allai godi yn Ffilm Cymru o bryd i'w gilydd, gan roi cydsyniad i ni barhau i gadw eich manylion, am ddwy flynedd, at y diben hwnnw.

I drafod eich cais yn Saesneg, cysylltwch â Hayley.
Hayley Lau, Cynorthwyydd Gweinyddol:
hayley@ffilmcymruwales.com

I drafod eich cais yn Gymraeg, cysylltwch â:
Siobhan Brennan, Swyddog Gweithredol Sgiliau:
siobhan@ffilmcymruwales.com

# Hysbyseb Swydd: Pennaeth Sgiliau a Hyfforddiant

Ffilm Cymru yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer byd ffilm yng Nghymru. Gweithiwn ar draws y sector o'r sgript i'r sgrin, yn ogystal â chefnogi addysg, sgiliau a hyfforddiant ym maes ffilm.

Rydym yn edrych am ymgeisydd a fydd yn gyrru ein gweithgarwch sgiliau a hyfforddiant yn ei flaen, ar bwynt pwysig yn nhwf ein cwmni a'r sector creadigol.

Gan weithio'n gyfrifol i'r Pennaeth Cynhyrchu, byddwch yn datblygu a gweithredu ein strategaeth Sgiliau a Hyfforddiant. Byddwch yn bwydo i mewn i'n darpariaeth hyfforddiant i awduron, cyfarwyddwyr, cynhyrchwyr, ac entrepreneuriaid creadigol, sy'n cael ei rheoli oddi mewn i'r tîm talent, ond dyma fydd eich prif flaenoriaethau:

- Datblygu ac adrodd ar ein rhaglen hyfforddiant i rai sy'n dyheu i fod yn rhan o'r criw ac sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol (Troed yn y Drws) gan gynnwys rheoli gweithgarwch sy'n cael ei ariannu gan bartneriaethau Media Cymru, Festival 22, a Chronfa Adnewyddu Cymunedol y Deyrnas Unedig;
- Eirioli dros sector sgrin cynaliadwy, sy'n gynhwysol o ran dyluniad ac sy'n cydnabod anghenion penodol Cymru;
- Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol, llywodraethol a'r diwydiant i asesu anghenion a chyfleoedd sgiliau yn barhaus; cyflawni prosiectau a chyd-ddylunio atebion i heriau'r sector;
- Nodi cyfleoedd i greu incwm i gefnogi ein strategaeth sgiliau, gan ddefnyddio ysgrifenwyr ceisiadau llawrydd os yw'n briodol;
- Datblygu a gyrru systemau olrhain hyfforddeion a mesurau effaith ar gyfer ein gwaith ar sgiliau;
- Cydweithio ar draws y tîm – gan gynnwys cydweithio'n agos â'r tîm addysg i sicrhau bod cyfeiriadau clir at lwybrau cynnydd.

Rydym wedi ymrwymo i ehangu cynrychiolaeth a phrofiad bywyd go iawn yn ein sefydliad. Cynigwn gyfweliad awtomatig i bob ymgeisydd sy'n bodloni ein meini prawf sylfaenol ac sy'n ystyried eu hunain yn Bobl o'r Mwyafrif Byd-eang, yn Ddu, Asiaidd neu o Leiafrif Ethnig, neu'n F/fyddar, yn drwm eu clyw, yn Anabl neu'n niwroamrywiol.

Gallwn hefyd dderbyn ceisiadau a darparu gwybodaeth mewn fformatau gwahanol, ac fe'ch anogwn i gysylltu â Siobhan Brennan neu Hayley Lau i drafod.

**Math o gontract:** Amser llawn, am un flwyddyn i gychwyn gyda'r posibilrwydd o'i ymestyn i fod yn gontract aml-flwyddyn. Croesawn gynigion i rannu swydd.
**Lleoliad:** Cymru. Mae gennym swyddfeydd yng Nghaerdydd ond mae hyblygrwydd i weithio o bell.
**Yn adrodd i:** Pennaeth Cynhyrchu.
**Dyddiad cychwyn:** Rhowch wybod pryd y gallwch gychwyn yn 2022.
**Cyflog:** £35,000 - £42,000 (yn dibynnu ar brofiad), ynghyd â phensiwn a 28 diwrnod o wyliau yn ychwanegol at Wyliau Cyhoeddus.
**Dyddiad cau:** 12 hanner dydd, dydd Llun 6ed Rhagfyr 2021.
Caiff y cyfweliadau eu cynnal ar-lein ar 13eg a 14eg Rhagfyr 2021.

**Swyddi eraill:** Nodwch os hoffech hefyd gael eich ystyried ar gyfer swyddi eraill ym maes sgiliau a hyfforddiant a allai godi yn Ffilm Cymru o bryd i'w gilydd ac a ydych yn rhoi eich cydsyniad i ni barhau i gadw eich manylion, am ddwy flynedd, at y diben hwnnw.

# Ffilm Cymru Wales


Ffilm Cymru yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilmiau yng Nghymru ac mae wedi ymrwymo i hybu sector ffyniannus y gallwn oll fod yn falch o ddweud ei bod yn perthyn i ni. Dyma sut y gwnawn hyn:

- Gweithio gyda phartneriaid i hybu safle byd ffilm yng Nghymru a thu hwnt
- Creu amgylchedd lle gall ffyrdd o weithio sy'n fwy cynhwysol, arloesol a gwyrdd gael eu profi, eu hintegreiddio a'u rhannu
- Hwyluso i bobl o bob oedran a gallu ddysgu'n greadigol
- Datblygu gweithlu sgrin i'r dyfodol drwy amryw raglenni hyfforddiant
- Buddsoddi mewn ffilmiau anarferol a rhai sy'n cymryd risgiau a'u gwneuthurwyr o gam cynnar
- Cynnig profiadau sinematig cyffrous i gynulleidfaoedd ar hyd a lled Cymru.

Rydym yn rheoli arian y loteri genedlaethol ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Sefydliad Ffilm Prydeinig, yn ogystal â chodi a rheoli arian pellach o Gronfa Adfywio Cymunedol y Deyrnas Unedig. Mae ein gwaith yn mapio'n agos i Raglen Lywodraethu Cymru, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn benodol, oherwydd y cymysgedd creadigol, economaidd a diwylliannol sydd i'n sector.

Sefydlwyd Ffilm Cymru  yn 2006 ac mae'n Gwmni Buddiannau Cymunedol. Yn 2018 fe lansiom ein Cynllun Strategol 2018 -2024, sydd i'w weld fan yma.

## Siart drefniadaeth Ffilm Cymru



# Y Swydd

| | |
|---|---|
| **Adran:** | Talent |
| **Swydd:** | Pennaeth Sgiliau a Hyfforddiant, Amser Llawn (posibilrwydd o rannu swydd) |
| **Yn adrodd i:** | Pennaeth Cynhyrchu. |
| **Lleoliad:** | Cymru. Mae gennym swyddfeydd yng Nghaerdydd ond mae hyblygrwydd i weithio o bell. |
| **Cyflog:** | £35,000 - £42,000 (yn dibynnu ar brofiad), ynghyd â phensiwn a 28 diwrnod o wyliau yn ychwanegol at Wyliau Cyhoeddus. |

**Prif Nodau**

Gan adrodd i'r Pennaeth Cynhyrchu, bydd i'r swydd hon rôl bwysig yn datblygu sector sgrin cynaliadwy yng Nghymru: sector lle gall pawb nid yn unig weithio ond ffynnu. Mae hynny'n golygu y byddwch yn datblygu ymyriadau hyfforddiant sy'n strategol, hirdymor ac yn cael eu gyrru gan waith partneriaeth, ac y bydd cyrhaeddiad, ansawdd profiad, gwerthuso a rhannu'r hyn a ddysgir yr un mor bwysig â nifer yr hyfforddeion.

Bydd eirioli dros waith Ffilm Cymru yn allweddol, boed yn siarad gyda chynghorwyr gyrfa AU/AB, swyddogion llywodraeth, sefydliadau fel ScreenSkills neu'r BFI, neu sefydliadau hyfforddiant, y trydydd sector, neu'r diwydiant. Agwedd allweddol arall fydd y gallu i ddenu partneriaethau a buddsoddiad er mwyn parhau i ehangu ein gweithgarwch, gyda chymorth y Prif Weithredwr, y Pennaeth Cynhyrchu ac ysgrifenwyr cynigion allanol lle y bo'n briodol. Byddwch yn rheoli tîm bach, gan gynnwys Swyddog Gweithredol Sgiliau amser llawn a Rheolwr Prosiect ar gyfer ein cais llwyddiannus diweddar i Gronfa Adfywio Cymunedol y Deyrnas Unedig (Troed yn y Drws yng Nghasnewydd), a gweithwyr llawrydd wrth i ni ehangu / contractio i gyflawni prosiectau. Byddai'r rôl yn addas i unigolion uchelgeisiol sydd â ffocws ar fanylder, sy'n cael eu gyrru gan gynhwysiant ac sy'n teimlo'n angerddol ynglŷn â'r diwydiannau creadigol.

Rydym yn agored iawn i gynigion i rannu swydd a gweithio hyblyg a byddwn yn cynnig cyfweliad awtomatig i bob ymgeisydd sy'n bodloni ein meini prawf sylfaenol ac sy'n ystyried eu hunain yn Bobl o'r Mwyafrif Byd-eang, yn Ddu, Asiaidd neu o Leiafrif Ethnig, neu'n F/fyddar, yn drwm eu clyw, yn Anabl neu'n niwroamrywiol. Gallwn hefyd dderbyn ceisiadau a darparu gwybodaeth mewn fformatau gwahanol, ac fe'ch anogwn i gysylltu â Siobhan Brennan neu Hayley Lau i drafod: hayley@ffilmcymruwales.com
siobhan@ffilmcymruwales.com

**Cyfrifoldebau Allweddol**

- Hybu ein strategaeth a chynllun gweithredol Sgiliau a Hyfforddiant, gan weithio ochr yn ochr â'r Pennaeth Cynhyrchu. Bydd hyn yn cynnwys trafod yn agos â chydweithwyr yn ogystal â'r sector yn ehangach er mwyn: gosod blaenoriaethau blynyddol, datblygu canlyniadau mesuradwy, a nodi llwybrau hyfforddiant drwy ein gwaith addysg ffilm yn ogystal â'n cymorth i wneuthurwyr ffilm a chwmnïau cynhyrchu.
- Datblygu grŵp llywio gweithredol, sy'n ehangu'r arbenigedd a'r profiad bywyd go iawn sy'n bwydo i mewn i'n gwaith sgiliau a hyfforddiant, ac yn fwy cyffredinol meithrin ein partneriaethau, o bosibl yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: bartneriaid elusennol, cynghorau lleol, gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant, cymdeithasau tai a chyn-aelodau rhaglenni hyfforddiant.
- Bod yn eiriolwr dros Ffilm Cymru yng Nghymru ac yn achlysurol yn rhyngwladol.
- Arolygu ein sylfaen o dalent (ar bob lefel) a'u hanghenion, er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'u hanghenion hyfforddiant a'u rhwystrau. Nodi lle gallwn adeiladu ar waith ymchwil arall fel 'Gwaith Sgrin 2020'. Hwyluso'r gwaith o gyd-ddatblygu atebion i rwystrau cyflogaeth yn ein sector drwy grŵp llywio neu fel arall.
- Nodi partneriaethau newydd neu gyfleoedd i greu incwm, gan sicrhau eich bod yn gyfarwydd â'r cyfleoedd cyllido diweddaraf

sy'n benodol i'r sector, neu o du elusennau neu lywodraeth, ynghyd â datblygu perthnasoedd â noddwyr a phartneriaid masnachol posibl.
- Rheoli'r Swyddog(ion) Gweithredol Sgiliau a rheolwyr prosiect rhaglenni tra'n datblygu ein carfan o weithwyr prosiect llawrydd a phecyn cynefino fel y gallwn gyflwyno gweithgarwch ar raddfa ehangach yn gyflym a dibynadwy yn ôl y gofyn.
- Datblygu cynlluniau rhaglen hyfforddiant cychwynnol a goruchwylio'r gwaith o'u cyflawni mewn perthynas â'n gweithgarwch Troed yn y Drws, gydag ymrwymiadau presennol i gyflawni rhaglenni yn 2022 o dan ein partneriaethau â Media Cymru a Festival 22 a'n dyfarniad o Gronfa Adfywio Cymunedol y Deyrnas Unedig.
- Goruchwylio'r gwaith o wella systemau i olrhain hyfforddeion a gweithgarwch hyfforddiant ar draws y cwmni (wedi'i reoli gan y Swyddog Gweithredol Sgiliau), a'r gwaith i fesur a chyfathrebu effaith ein gwaith sgiliau, gyda chymorth y Rheolwr Cyfathrebu. Yn ymarferol, bydd angen i ddeiliad y swydd gynorthwyo'r aelod perthnasol o staff neu weithiwr llawrydd i osod targedau a strwythuro dulliau casglu data priodol ac adrodd y wybodaeth hon i'n bwrdd. Bydd hefyd angen iddynt ystyried sut gall y gweithgarwch gynnig dealltwriaeth a deunydd ar gyfer gwaith eirioli a chysylltiadau cyhoeddus ehangach o'r cychwyn.
- Dilyn gweithgarwch sgiliau a hyfforddiant yng Nghymru ac ysbrydoli gweithgarwch mewn mannau eraill.
- Hybu a chefnogi amrywiaeth a chynhwysiant yn gyson yn unol â'n Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad.
- Rheoli cyllidebau ac amserlenni sgiliau a hyfforddiant a thrafod gyda'r Rheolwr Cyllid, Ceidwad Llyfrau a Swyddog Gweithredol Sgiliau i sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw.

## Gofynion Sylfaenol y Swydd

- Ymrwymiad ymarferol i egwyddorion amrywiaeth a chynhwysiant.

- Dealltwriaeth o dirwedd sgiliau a hyfforddiant a phrosesau hyfforddiant a sgiliau ffurfiol (boed drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus, addysg bellach, addysg uwch neu ddulliau eraill).
- Profiad cryf o reoli prosiectau a phersonél.
- Profiad o weithio gyda'r diwydiannau creadigol.
- Sgiliau eirioli a diplomyddiaeth cryf.
- Llwyddiant blaenorol o adeiladu partneriaethau ag uwch staff mewn amrywiaeth o sefydliadau cyhoeddus a/neu breifat.
- Y gallu i weithio'n dda o dan bwysau mewn ffordd drefnus.
- Y gallu i ddefnyddio rhaglenni Microsoft Office, yn enwedig Excel.

**Dymunol**

- Profiad o'r sector sgrin a'r celfyddydau yn ehangach.
- Rhuglder yn y Gymraeg (yn ysgrifenedig ac ar lafar).
- Profiad o godi arian.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o rôl cymdeithasau tai a/neu'r trydydd sector a allai lywio partneriaethau hyfforddiant yn y dyfodol.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o fframweithiau addysg a phrentisiaethau.